SESIWN MATHEMATEG: MESUR Y BYLCHAU

Ystod oed: 9–14

oed

Amlinelliad

Bydd dysgwyr yn edrych ar nifer y medalau ac athletwyr y gwledydd a gymerodd ran yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012. Byddant yn edrych ar y ffordd y caiff medalau eu dosbarthu pan gaiff gwledydd eu grwpio yn ôl incwm (yn ogystal ag edrych ar ba grwpiau o wledydd sy'n ennill y nifer mwyaf o fedalau am gampau penodol), ac yn ystyried ffactorau posibl eraill a allai effeithio ar faint o fedalau y mae gwlad yn eu hennill. Yna bydd y dysgwyr yn ystyried ystyr anghydraddoldeb o fewn gwlad ac yn rhoi gwledydd yn eu trefn ar raddfa yn ôl pa mor deg neu annheg maen nhw.

Amcanion dysgu

- Dehongli data mewn tablau a defnyddio canrannau i gymharu symiau.
- Cyflwyno data mewn siart bar.
- Deall nad oes gan y gwledydd sy'n cymryd rhan yn y Gemau Olympaidd siawns gyfartal i ennill medalau ac i gydnabod bod incwm y wlad, ynghyd â ffactorau eraill, yn gallu effeithio ar nifer y medalau y mae gwlad yn ei hennill.
- Gwybod y gall anghydraddoldeb fodoli o fewn gwledydd hefyd a rhoi rhifau yn eu trefn a'u marcio ar raddfa i ddangos "sgoriau tegwch" gwahanol wledydd.

Deilliannau dysgu

- Bydd y dysgwyr yn dehongli data mewn tabl er mwyn cymharu canrannau'r gwledydd mewn gwahanol grwpiau incwm sy'n ennill o leiaf un fedal Olympaidd.
- Bydd y dysgwyr yn cyflwyno data mewn siart bar er mwyn cymharu canran y gwledydd mewn gwahanol grwpiau incwm sy'n ennill medalau Olympaidd mewn gwahanol gampau Olympaidd.
- Bydd y dysgwyr yn rhoi'r gwledydd ar raddfa yn ôl "sgôr tegwch" sy'n dangos lefel yr anghydraddoldeb ym mhob gwlad.

Cwestiynau allweddol

- Pa ffactorau allai effeithio ar faint o athletwyr sydd gan wlad a sawl medal y mae'n eu hennill (os o gwbl)?
- Pa gampau allai fod ag ychydig o athletwyr neu ddim athletwyr o gwbl o wledydd incwm is sy'n cymryd rhan ac yn ennill medalau? Pam rydych chi'n meddwl hyn?
- Pa gampau allai fod â mwy o athletwyr o wledydd incwm is yn cymryd rhan? Pam rydych chi'n meddwl hyn?

Adnoddau

- *Chwarae Teg?* Sioe sleidiau Mathemateg: sleidiau 1–18
- Taflenni adnoddau
  1. *Medalau ac athletwyr*
  2. *Cymedr y medalau i bob athletwr– llenwch*
- Taflenni gweithgareddau:
  1. *Cymedr y medalau i bob athletwr– gwag*
  2. *Gwledydd incwm isel*
  3. *Gwledydd incwm canolig is*
  4. *Gwledydd incwm canolig uwch*
  5. *Gwledydd incwm uchel*
  6. *Campau Olympaidd – yn agored i bawb?*
  7. *Siart bar A*
  8. *Siart bar B*
  9. *Graddfa A Sgôr tegwch*
  10. *Sgôr tegwch graddfa B*

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

Cysylltiadau â'r cwricwlwm
Cymraeg **Mathemateg CA2 a CA3** **Datblygu ymresymu rhifyddol:** • **CA2: Adolygu:** defnyddio data i ddod i gasgliadau, a chydnabod y gall rhai casgliadau fod yn gamarweiniol neu'n ansicr • **CA3 Adolygu:** esbonio a chyfiawnhau strategaethau, dulliau, ymresymu a dod i gasgliad mewn amryw o wahanol ffyrdd, gan gynnwys ar lafar, yn graffigol, mewn ysgrifen (heb a gyda nodiant mathemategol), ac yn defnyddio cyfarpar llythrennedd digidol priodol **Defnyddio sgiliau rhif** • Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb **Defnyddio sgiliau data** • Cywain a chofnodi data • Cyflwyno a dadansoddi data • Dehongli canlyniadau

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

Nodyn: Ar gyfer y sesiwn hon, bydd ar y dysgwyr angen dealltwriaeth o'r term "anghydraddoldeb", wedi'i gyflwyno yn Sioe sleidiau'r cyflwyniad (Intro slide show)*. Hefyd efallai byddwch eisiau bwrw golwg ar y* Trosolwg i Athrawon*.*

Gweithgaredd 1 *(20 munud)*

Cyfrifo'r medalau a'r athletwyr

- Defnyddiwch sleid 3 i rannu rhai ffeithiau allweddol am Gemau Olympaidd Rio 2016. Eglurwch y bydd 10,500 athletwr o 206 gwlad* yn cymryd rhan. Yn ystod 17 diwrnod y gemau bydd 306 camp i ennill medalau. Ar gyfer pob camp, rhoddir tair medal – aur, arian ac efydd. Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth hon i gyfrifo neu i amcangyfrif yr atebion i'r cwestiynau canlynol:
    - *Faint o fedalau fydd yn cael eu rhoi i gyd yn ystod y gemau?*
    - *Petai pob gwlad yn cymryd rhan ym mhob camp a phetai ganddyn nhw gyfle **cyfartal** i ennill medal, tua faint o fedalau y byddai pob gwlad yn disgwyl eu hennill?*

***Nodyn: Gwledydd yw'r rhan fwyaf o'r cenhedloedd hyn ond mae nifer fach yn wladwriaethau a thiriogaethau nad ydynt yn cael eu cydnabod yn ffurfiol fel gwledydd, fel British Virgin Islands.*

- Gofynnwch i'r dysgwyr a ydyn nhw'n meddwl mewn gwirionedd y bydd gan bob gwlad yr un nifer o fedalau ar y diwedd. Anogwch nhw i roi rhesymau dros eu hatebion.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ble a phryd digwyddodd y Gemau Olympaidd diwethaf (yn Llundain, yn 2012). Esboniwch i 204 gwlad gymryd rhan yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012 a bod 85 o'r rhain wedi ennill o leiaf un fedal. Dangoswch sleid 4 a dweud mai dyma faneri rhai o'r 85 gwlad. Gofynnwch i'r dysgwyr pa faneri y maen nhw'n eu hadnabod. *Nodyn: Mae'r atebion cywir yn nodiadau'r sleidiau.*
- Nawr gofynnwch i'r dysgwyr pa wledydd maen nhw'n meddwl a enillodd y nifer mwyaf o fedalau yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012 a thrafodwch eu rhesymau am eu syniadau. Er enghraifft, gallai eu syniadau fod wedi'u seilio ar wybodaeth neu dybiaethau am wledydd penodol neu ar yr hyn y maen nhw'n ei gofio o fod wedi gwylio'r sylw i Gemau Olympaidd Llundain 2012.
- Esboniwch fod rhaid i athletwr gymhwyso drwy gyrraedd y safon angenrheidiol er mwyn gallu cymryd rhan mewn camp Olympaidd. Tynnwch sylw at y ffaith na fydd gan bob un o'r gwledydd sy'n cymryd rhan athletwyr sy'n cymhwyso i gymryd rhan ym mhob camp.
- Dangoswch sleid 5 a gofynnwch i'r dysgwyr roi'r gwledydd yn eu trefn yn ôl faint o athletwyr a gymerodd ran o bob un o'r gwledydd hyn yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012. Anogwch nhw i roi rhesymau dros eu syniadau. Cliciwch ymlaen ar y sleid i ddangos nifer yr athletwyr ar gyfer pob gwlad a thrafodwch ymatebion y dysgwyr i'r data.
- Trefnwch y dysgwyr yn barau a dosbarthwch gopïau o *Medalau ac athletwyr* (Taflen adnoddau 1)*.* Eglurwch fod y tabl hwn yn dangos nifer yr athletwyr sy'n cymryd rhan a chyfanswm y medalau (aur, arian ac efydd) a roddwyd i bob un o'r 85 gwlad a enillodd o leiaf un fedal yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012.
- Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar y tabl a meddwl am y cwestiynau canlynol:
    - *Pa wlad enillodd y nifer uchaf o fedalau?* (Ateb: Unol Daleithiau America)

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

- *Pa un o'r gwledydd hyn oedd â'r nifer uchaf o athletwyr yn cymryd rhan?* (Ateb: Y DU)
- *Pa un o'r gwledydd hyn oedd â'r nifer isaf o athletwyr yn cymryd rhan?* (Ateb: Botswana)
- *Dewiswch ddwy wlad. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cyfansymiau eu medalau? Ailadroddwch hyn ar gyfer parau eraill o wledydd.*
- *Dewiswch ddwy wlad. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng niferoedd yr athletwyr sy'n cymryd rhan o bob gwlad? Ailadroddwch hyn ar gyfer parau eraill o wledydd.*
- *Ydy'r gwledydd a enillodd y nifer mwyaf o fedalau yn eich synnu chi, neu ai dyma roeddech chi'n ei ddisgwyl?*
- *Oes unrhyw wledydd roeddech chi'n disgwyl iddyn nhw gael medal sydd ar goll o'r tabl? Pa rai a pham roeddech chi'n meddwl hyn?*

- Trafodwch y cwestiynau canlynol. Defnyddiwch y cwestiwn "Pam?" o hyd ac o hyd i helpu i ddatblygu syniadau'r dysgwyr.
  - *Pa ffactorau allai effeithio ar faint o athletwyr sydd gan wlad a sawl medal y mae'n eu hennill (os o gwbl)?* Mae'r awgrymiadau posibl yn cynnwys maint y boblogaeth, yr adnoddau a'r cyfleusterau hyfforddi sydd ar gael, athletwyr Olympaidd amlwg a phoblogrwydd campau Olympaidd yn y wlad.
  - *Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n deg fod gan rai gwledydd gymaint o athletwyr a bod gan eraill gyn lleied?* Er enghraifft, am bob un athletwr o Sierra Leone, roedd 128 athletwr o'r DU. Pwysleisiwch fod pob un o'r athletwyr hyn o bob un o'r gwledydd hyn wedi hyfforddi'n galed iawn i gymryd rhan yn y Gemau Olympaidd. Ond serch hynny, mae'r wlad rydych chi'n dod ohoni'n gallu effeithio ar eich siawns gyffredinol o gymryd rhan ac o ennill medal.
- Eglurwch fod y dysgwyr yn y gweithgaredd nesaf yn mynd i edrych ar rai o'r rhesymau posibl pam mae rhai gwledydd yn ennill mwy o fedalau Olympaidd na rhai eraill.
- Dewch â'r gweithgaredd i ben drwy drafod a yw'r dysgwyr yn meddwl mai ennill medalau yw'r peth pwysicaf am gymryd rhan yn y Gemau Olympaidd. Dangoswch sleid 6 a phwysleisiwch y pwynt nad ennill medalau yw'r unig beth pwysig am y Gemau Olympaidd; mae cymryd rhan yn bwysicach a hefyd y gwerthoedd Olympaidd a Pharalympaidd sef Cyfeillgarwch, Parch, Rhagoriaeth, Penderfyniad, Ysbrydoliaeth, Dewrder a Chydraddoldeb.

Gwahaniaethau

- *I'w wneud yn anos:*
  - *Eglurwch fod y dysgwyr yn mynd i gydweithio i gyfrifo cymedr y medalau i bob athletwr ar gyfer pob un o'r 85 gwlad.*
  - *Trefnwch y dysgwyr yn barau a rhowch gopi o* Cymedr y medalau i bob athletwr – gwag *(Taflen gweithgareddau 1). Gofynnwch i bob pâr gyfrifo cymedr y medalau i bob athletwr ar gyfer pump neu chwe gwlad. Dylai'r dysgwyr gofnodi eu hatebion i ddau le degol.*
  - *Yna coladwch y data a gofynnwch i'r dysgwyr gyfrifo pa un o'r gwledydd sydd â'r cymedr uchaf o nifer o fedalau yr athletwr (yr ateb yw Botswana gyda 0.25 medal yr athletwr).*
  - *Mae fersiwn wedi'i lenwi o'r tabl gyda chymedr y medalau i bob athletwr i bob gwlad yn* Cymedr y medalau i bob athletwr– llawn *(Taflen adnoddau 2).*

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Gweithgaredd 2 *(25 munud)*

Incwm ac anghydraddoldeb medalau.

- Atgoffwch y dysgwyr eu bod yn y gweithgaredd diwethaf wedi darganfod fod rhai gwledydd a gymerodd ran yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012 wedi ennill llawer mwy o fedalau nag eraill, a'u bod wedi dechrau meddwl am resymau posibl am hyn. Eglurwch fod y dysgwyr yn y gweithgaredd hwn yn mynd i edrych a oes cysylltiad rhwng incwm cyfartalog person mewn gwlad a'r nifer o fedalau Olympaidd y mae'r wlad yn ei hennill.
- Eglurwch fod gwahaniaethau enfawr rhwng incwm gwledydd. Mae sefydliad o'r enw Banc y Byd yn rhoi sylw manwl i hyn. Mae'n benthyg arian i wahanol wledydd, ac yn cyfrifo "incwm" gwledydd, y maen nhw'n ei gyfrifo fel cyfartaledd y person, er mwyn gallu cymharu gwledydd sydd â mwy neu lai o bobl. I'w gyfrifo maen nhw'n adio cyfanswm yr arian sy'n cael ei wneud yn y wlad honno dros y flwyddyn. Yna maen nhw'n rhannu hyn â nifer y bobl yn y wlad. Maen nhw'n gwneud y cyfrifiad hwn mewn doleri fel y gallant gymharu pob gwlad yn deg. Yna mae Banc y Byd yn didoli'r gwledydd yn grwpiau gwahanol yn ôl eu hincwm.
- Dangoswch sleid 7 a gofynnwch i'r dysgwyr ym mha grŵp incwm mae pob un o'r gwledydd a ddangosir. Trafodwch syniadau'r dysgwyr a'u rhesymau amdanynt. Cliciwch ymlaen ar y sleid i ddatgelu'r atebion cywir a thrafodwch ymatebion y dysgwyr. *Ydy unrhyw rai o'r atebion yn eu synnu? Pa rai a pham? Nodyn: Mae incwm cyfartalog pob person ar gyfer pob un o'r gwledydd hyn wedi'u darparu yn nodiadau'r sleidiau.*
- Trefnwch y dysgwyr yn barau neu'n grwpiau o dri a rhowch gopi i bob grŵp o un o'r taflenni gweithgaredd *canlynol: Gwledydd incwm isel* (Taflen gweithgareddau 2)*, Gwledydd incwm canolig is* (Taflen gweithgareddau 3)*, Gwledydd incwm canolig uwch* (Taflen gweithgareddau 4) *neu Gwledydd incwm uchel* (Taflen gweithgareddau 5)*.*
- Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar y data yn y tabl a chyfrifo'r canlynol:
    - *Cyfanswm nifer y gwledydd*
    - *Cyfanswm nifer y medalau*
    - *Nifer y gwledydd sy'n ennill o leiaf un fedal*
    - *Canran y gwledydd sy'n ennill o leiaf un fedal*
- Dewch â'r dysgwyr yn ôl at ei gilydd yn y diwedd i rannu eu canfyddiadau. Trafodwch y cwestiynau canlynol (hefyd ar sleid 8).
    - *Pa grŵp o wledydd sydd â'r canran uchaf o wledydd yn ennill o leiaf un fedal?*
    - *Pa grŵp o wledydd sydd â'r canran isaf o wledydd yn ennill o leiaf un fedal?*
    - *Yn eich barn chi, pam mae canran y gwledydd sy'n ennill o leiaf un fedal yn uwch yn y grwpiau gwledydd incwm uwch nag yn y grwpiau gwledydd incwm is?*
    - *Yn ôl y data hyn, pa grŵp o wledydd sydd fwyaf tebygol o gynnwys gwlad sy'n ennill o leiaf un fedal? Pa grŵp o wledydd yw'r lleiaf tebygol o gynnwys gwlad sy'n ennill o leiaf un fedal?*
    - *Pa ffactorau eraill a allai effeithio ar y cyfleoedd sydd gan wlad o ennill o leiaf un fedal?* Mae'r awgrymiadau posibl yn cynnwys maint y boblogaeth, yr adnoddau a'r cyfleusterau hyfforddi sydd ar gael, athletwyr Olympaidd enwog a phoblogrwydd camp yn y wlad.

Gwahaniaethau

- *I'w wneud yn haws: Rhowch gopïau i'r dysgwyr o* Gwledydd incwm isel *(Taflen gweithgareddau*

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

2) neu Gwledydd incwm canolig is *(Taflen gweithgareddau 3).*

- *I'w wneud yn anos: Rhowch gopïau i'r dysgwyr o* Gwledydd incwm canolig uwch *(Taflen gweithgareddau 4) neu* Gwledydd incwm uchel *(Taflen gweithgareddau 5).*

Gweithgaredd 3 *(40 munud)*

Campau Olympaidd – yn agored i bawb?

- Atgoffwch y dysgwyr eu bod wedi cymharu cyfansymiau medalau'r gwledydd mewn gwahanol grwpiau incwm yn y gweithgaredd diwethaf. Esboniwch fod y dysgwyr yn y gweithgaredd hwn yn mynd i edrych ar gyfansymiau medalau gwledydd mewn gwahanol grwpiau incwm ar gyfer gwahanol gampau.
- Gofynnwch i'r dysgwyr enwi cymaint o gampau Olympaidd ag y gallant. Mae rhai enghreifftiau ar sleid 9 ac mae rhestr o'r campau Olympaidd yng Ngemau Olympaidd Rio 2016 ar gael yma: www.rio2016.com/en/sports

  Neu efallai y byddech chi'n hoffi gwneud hyn fel ras fwrdd, gyda'r dysgwyr wedi'u trefnu'n grwpiau o bedwar i chwe aelod. Mae ras fwrdd yn cael ei rhedeg fel ras gyfnewid, gyda'r person ar flaen pob tîm yn rhedeg at y bwrdd neu'r darn o bapur ac yn ysgrifennu rhywbeth sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn neu'r pwnc. Cyn gynted ag y maen nhw wedi ysgrifennu rhywbeth maen nhw'n rhedeg yn ôl at eu tîm ac yn rhoi'r beiro i'r person nesaf yn y rhes ac yna'n mynd i gefn y rhes. Yna mae'r person nesaf yn rhoi cynnig arni ond ni chânt ailadrodd unrhyw beth sydd wedi'i ysgrifennu'n barod ar ddarn o bapur eu grŵp nhw neu ar eu rhan nhw o'r bwrdd. Mae'r broses yn cael ei hailadrodd tan i'r amser ddod i ben. Ar ddiwedd y ras, gofynnwch i'r dysgwyr eistedd, yna cyfrwch nifer yr atebion sydd i bob tîm.
- Nawr trafodwch y cwestiynau canlynol (sydd hefyd ar sleid 10):
  - *Pa gampau allai fod ag ychydig o athletwyr neu ddim athletwyr o gwbl o wledydd incwm is sy'n cymryd rhan ac yn ennill medalau? Pam rydych chi'n meddwl hyn?*
  - *Pa gampau allai fod â mwy o athletwyr o wledydd incwm is yn cymryd rhan? Pam rydych chi'n meddwl hyn?*
  - *Sut gallech chi ymchwilio i hyn?*
- Eglurwch fod y dysgwyr yn mynd i ymchwilio i hyn drwy edrych ar gyfanswm medalau'r pedwar grŵp o wledydd ar gyfer rhai campau gwahanol. Trefnwch y dysgwyr yn barau a rhowch gopi i bob pâr o *Campau Olympaidd – yn agored i bawb?* (Taflen gweithgareddau 6).
- Gofynnwch i'r dysgwyr dynnu siart bar i gynrychioli'r data (gweler isod ar gyfer gwahaniaethu). Mae templedi wedi'u rhoi yn *Siart bar A* (Taflen gweithgareddau 7) a *Siart bar B* (Taflen gweithgareddau 8).
- Yn olaf, gofynnwch i'r dysgwyr drafod ac ateb y cwestiynau canlynol yn eu parau (mae'r cwestiynau hyn ar Daflen gweithgareddau 6 hefyd).
  - *Ym mha rai o'r campau hyn rydych chi'n meddwl nad yw incwm gwlad mor bwysig er mwyn ennill medal? Pam rydych chi'n meddwl mae hyn?* Efallai y bydd angen i chi nodi bod y rhain yn gampau lle'r enillodd gwledydd o ystod o grwpiau incwm fedalau.
  - *Ym mha rai o'r campau hyn rydych chi'n meddwl bod incwm gwlad yn bwysig iawn er mwyn ennill medal? Pam rydych chi'n meddwl mae hyn?* Efallai y bydd angen ichi nodi bod y rhain yn gampau lle'r enillodd gwledydd o'r grwpiau incwm uwch yn unig fedalau.

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

- *Ydych chi'n meddwl bod yr anghydraddoldeb hwn yn deg? Pam rydych chi'n meddwl hyn?*

- Atgoffwch y dysgwyr fod ffactorau eraill heblaw am incwm a all effeithio ar a yw gwlad yn ennill medal mewn camp benodol ai peidio. Fel y trafodwyd yn y gweithgareddau blaenorol, mae ffactorau posibl yn cynnwys poblogaeth y wlad, yr adnoddau a'r cyfleusterau hyfforddi sydd ar gael, athletwyr Olympaidd enwog a phoblogrwydd camp yn y wlad.

Gwahaniaethau

- *I'w wneud yn haws: Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio* Siart bar A *(Taflen gweithgareddau 7) i lunio siart bar i ddangos cyfanswm y medalau fesul grŵp incwm gwledydd ar gyfer un o'r campau Olympaidd.*

- *I'w wneud yn anos: Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio* Siart bar B *(Taflen gweithgareddau 8) i lunio siart bar wedi'i grwpio i ddangos cyfansymiau'r medalau fesul grŵp incwm gwledydd i bob un o'r 10 camp Olympaidd.*

Gweithgaredd 4 *(30 munud)*

Bylchau o fewn gwledydd

- Eglurwch fod y dysgwyr wedi edrych ar y gwahaniaethau mewn incwm a chyfansymiau medalau rhwng gwledydd yn y gweithgareddau diwethaf. Dangoswch sleid 11 a dywedwch fod y rhain yn enghreifftiau o anghydraddoldebau rhwng gwledydd. Mae rhai gwledydd yn gyfoethog ac eraill yn hynod o dlawd.

- Dangoswch sleid 12 ac eglurwch fod anghydraddoldeb yn aml o fewn gwledydd hefyd, hynny yw mai ychydig yn unig sydd gan rai pobl yn y wlad honno a bod gan eraill lawer. Pwysleisiwch y pwynt mai cyfartaledd yn unig yw incwm cyfartalog y person pob gwlad, ac y bydd rhai pobl sydd ag incwm llawer uwch a phobl eraill ag incwm sydd yn llawer is.

- Dangoswch sleid 12 ac eglurwch fod yr anghydraddoldeb hwn o fewn gwledydd yn bodoli mewn llawer o wledydd o gwmpas y byd, gan gynnwys y DU. Er enghraifft, yn 2014, darganfu Oxfam fod y pum teulu cyfoethocaf yn y DU yn gyfoethocach na 20% gwaelod y boblogaeth. Felly mae gan bum cartref fwy o arian na 12.6 miliwn o bobl. Trafodwch ymatebion y dysgwyr i'r ystadegyn hwn. *Ydych chi'n meddwl bod yr anghydraddoldeb hwn yn gywir?*

- Eglurwch fod gwahanol ffyrdd o fesur anghydraddoldeb o fewn gwledydd. Un ffordd yw mynegai neu gymhareb Gini. Gallwn feddwl am hwn fel math o sgôr tegwch sy'n dangos pa mor gydradd neu anghydradd yw gwlad.

- Dangoswch sleid 14 ac eglurwch y byddai sgôr tegwch o 0 yn golygu bod gan bawb yn y wlad yr un faint o arian yn union; ni fyddai unrhyw anghydraddoldeb incwm. Mewn gwirionedd, nid oes unrhyw wlad fel hyn. Trafodwch syniadau'r dysgwyr am y posibilrwydd hwn. *A fyddai hi'n deg petai pawb yn ennill yr un faint o arian?* Gall fod rhesymau pam dylai rhai pobl ennill mwy. Er enghraifft, bydd gan rai pobl swyddi â mwy o gyfrifoldeb yn y gweithle, neu efallai y byddant eisiau gweithio am lai o amser oherwydd eu bod eisiau neu fod arnyn nhw angen treulio mwy o amser gyda'u teuluoedd neu'n gwneud pethau eraill.

- Dangoswch sleid 15 ac eglurwch y byddai sgôr tegwch o 100 yn golygu bod y wlad yn hollol anghydradd. Mewn gwirionedd, nid oes unrhyw wlad fel hyn chwaith. Trafodwch syniadau'r dysgwyr am y posibilrwydd hwn. *Ydych chi'n meddwl bod hyn yn deg? A hoffech chi fod yn llawer mwy cyfoethog nag unrhyw un arall? A hoffech chi fod ar yr ochr arall, heb arian o gwbl?*

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

- Dangoswch sleid 16 ac eglurwch fod pob gwlad mewn gwirionedd rhywle yn y canol, rhwng 0 a 100. Mae gwledydd mwy cydradd yn nes at 0 ac mae gwledydd mwy anghydradd yn nes at 100. Cliciwch ymlaen ar y sleid i ddangos y sgoriau tegwch ar gyfer y DU a Brasil.
- Rhowch gopi i bob dysgwr o *Graddfa A Sgôr tegwch* (Taflen gweithgareddau 9) neu *Graddfa B Sgôr tegwch* (Taflen gweithgareddau 10) a gofynnwch iddynt farcio'r gwledydd ar y raddfa, yn ôl eu sgôr tegwch. Yn *Graddfa A Sgôr tegwch* mae'r rhaniadau ar y raddfa wedi'u labelu er mwyn cynorthwyo'r dysgwyr. Yn *Graddfa B Sgôr tegwch*, mae'r rhaniadau ar y raddfa heb eu labelu a hefyd rhaid i'r dysgwyr ddarllen y raddfa i ddod o hyd i'r sgôr tegwch ar gyfer rhai o'r gwledydd.
- Trafodwch pa rai o'r gwledydd hyn, yn ôl y data, sydd fwyaf cydradd (Ukrain) a pha un yw'r mwyaf anghydradd (De Affrica). Dangoswch sleid 17 ac eglurwch fod y map hwn o'r byd yn dangos sut mae gwledydd y byd yn cymharu o ran anghydraddoldeb incwm yn ôl mynegai Gini. Mae'r gwledydd sy'n fwy cydradd wedi'u lliwio'n wyrdd. Mae'r gwledydd sy'n fwy anghydradd wedi'u lliwio'n binc, oren a choch. Trafodwch ymatebion y dysgwyr i'r map hwn. *Yn ôl y map hwn, pa wledydd yw'r rhai mwyaf anghydradd? Pa wledydd yw'r mwyaf cydradd?*
- Nodwch mai un ffordd yn unig yw mynegai Gini o fesur anghydraddoldeb o fewn gwledydd ac eglurwch fod dulliau eraill. Dywedwch fod rhai pobl hefyd o'r farn ei bod hi'n bwysicach mesur pethau eraill am wlad, er enghraifft pa mor hapus yw pobl neu pa mor gydradd (neu anghydradd) yw bywyd i fenywod a dynion.
- Dewch â'r sesiwn i ben drwy ddangos sleid 18 a phwysleisiwch y pwynt nad yw anghydraddoldeb yn ymwneud yn unig â sut caiff arian ei rannu rhwng neu o fewn gwledydd. Mae anghydraddoldeb yn effeithio ar y cyfleoedd sydd gan bobl hefyd. Er enghraifft, ym maes chwaraeon, mae gan rai athletwyr fynediad i gyfleusterau a hyfforddiant gwell nag eraill. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am ffyrdd eraill lle gallai bywydau a chyfleoedd pobl fod yn anghydradd.

Gwahaniaethau

- *I'w wneud yn haws: Rhowch* Graddfa A Sgôr tegwch *(Taflen gweithgareddau 9) i'r dysgwyr ei lenwi.*
- *I'w wneud yn anos: Rhowch* Graddfa B Sgôr tegwch *(Taflen gweithgareddau 10) i'r dysgwyr ei lenwi.*

Syniadau pellach

- Chwaraewch *Trympiau Olympaidd* i edrych ar anghydraddoldebau eraill rhwng rhai o'r gwledydd sy'n cymryd rhan yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012. Gweler *sesiwn ddaearyddiaeth* Chwarae Teg?*.*
- Edrychwch ar faneri'r gwahanol wledydd sy'n cymryd rhan yn y Gemau Olympaidd. *Pa batrymau y gallwch chi eu gweld? Pa siapiau 2-D a mathau o onglau sydd yna? Pa faneri sydd â llinellau cymesuredd?*
- Edrychwch ar nifer yr athletwyr a gymhwysodd a chyfansymiau'r medalau gan y gwledydd a gymerodd ran yng Ngemau Paralympaidd Llundain 2012. Ystyriwch resymau posibl pam mae gan rai gwledydd lawer mwy o athletwyr a medalau nag eraill. Cymharwch y data hyn â chyfansymiau'r athletwyr a'r medalau o'r Gemau Olympaidd yn Llundain yn 2012. *Pa bethau sy'n debyg ac yn wahanol rhwng y data?*

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

  - I gael rhestr o athletwyr a gymerodd ran fesul gwlad yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012, gweler: www.theguardian.com/sport/datablog/2012/jul/27/london-olympic-athletes-full-list
  - I gael manylion cyfanswm y medalau Olympaidd fesul gwlad, gweler: www.olympic.org/olympic-results
  - I gael rhestr o gyfansymiau'r medalau a niferoedd yr athletwyr Paralympaidd a gymerodd ran fesul gwlad, gweler: www.paralympic.org/results/historical
  - I gael mapiau o'r byd wedi'u hailfeintio yn ôl niferoedd yr athletwyr Olympaidd a Pharalympaidd sy'n cymryd rhan ym mhob gwlad, gweler: www.viewsoftheworld.net/?p=2541
- Ymchwiliwch i niferoedd yr athletwyr gwrywaidd a benywaidd o wahanol wledydd sy'n cystadlu yn y Gemau Olympaidd. Cymharwch y gwahanol wledydd a meddyliwch yn feirniadol am pam gallai rhai gwledydd fod â mwy o ddynion na menywod yn cymryd rhan. Edrychwch ar ddata o Gemau Olympaidd blaenorol i weld sut mae cyfranogiad menywod wedi newid dros y blynyddoedd.
  - I gael rhagor o wybodaeth am fenywod yn y mudiad Olympaidd gweler: www.olympic.org/Documents/Reference_documents_Factsheets/Women_in_Olympic_Movement.pdf
- Dysgwch ragor am achosion o anghydraddoldeb ac edrychwch ar ganlyniadau posibl i fywydau pobl ifanc mewn gwahanol rannau o'r byd, gan gynnwys y DU.
  - Gweler *Everyone Counts*, adnodd mathemateg gan Oxfam i ddysgwyr 8–12 oed: www.oxfam.org.uk/education/resources/everyone-counts
  - Gweler *More or Less Equal?*, adnodd mathemateg gan Oxfam i ddysgwyr 11–16 oed: www.oxfam.org.uk/education/resources/more-or-less-equal-maths

Amodau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Cewch ddefnyddio'r ffotograffau hyn a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y'i defnyddiwch, rhaid ichi gydnabod y ffotograffydd a enwyd ar gyfer y ddelwedd honno ac Oxfam. Ni chewch ddefnyddio delweddau a gwybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol neu'r tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn ymwneud â'r dyddiad a'r amser pan ddigwyddodd y gwaith prosiect. Er bod yr adnodd hwn yn cyfeirio at y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd drwyddi draw, defnydd golygyddol yn unig yw hwn ac nid oes unrhyw fath o gysylltiad rhwng y Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol a'r adnodd hwn.

Medalau ac athletwyr

Taflen adnoddau 1

Gwlad	Nifer yr athletwyr	Cyfanswm y medalau	Gwlad	Nifer yr athletwyr	Cyfanswm y medalau	Gwlad	Nifer yr athletwyr	Cyfanswm y medalau
Unol Daleithiau	531	103	Sweden	140	8	Estonia	33	2
China	371	88	Ethiopia	35	7	Gwlad Groeg	105	2
Ffederasiwn Rwsia	435	82	Georgia	35	7	Indonesia	22	2
Y Deyrnas Unedig	556	65	México	106	7	Latvia	46	2
Yr Almaen	395	44	Croatia	110	6	Malaysia	30	2
Japan	303	38	India	83	6	Moldova	22	2
Awstralia	413	35	Gogledd Korea	55	6	Puerto Rico	25	2
Ffrainc	335	35	De Affrica	133	6	Qatar	12	2
Yr Eidal	281	28	Gweriniaeth Iwerddon	66	5	Singapore	23	2
De Korea	255	28	Lithuania	62	5	Taiwan	44	2
Yr Iseldiroedd	182	20	Mongolia	29	5	Afghanistan	6	1
Ukrain	236	20	Twrci	114	5	Algeria	39	1
Canada	279	18	Yr Ariannin	142	4	Bahamas	26	1
Hwngari	158	18	Norwy	65	4	Bahrain	12	1
Brasil	266	17	Serbia	116	4	Botswana	4	1
Sbaen	289	17	Slofacia	46	4	Cyprus	13	1
Cuba	110	14	Slovenia	68	4	Gabon	28	1
Kazakhstan	115	13	Y Swistir	106	4	Grenada	10	1
Seland Newydd	196	13	Trinidad a Tobago	31	4	Guatemala	19	1
Belarus	172	12	Armenia	25	3	Hong Kong	42	1
Iran	53	12	Gwlad Belg	118	3	Kuwait	10	1
Jamaica	50	12	Y Ffindir	56	3	Montenegro	34	1
Kenya	50	11	Thailand	37	3	Morocco	72	1
Azerbaijan	53	10	Tunisia	84	3	Portiwgal	80	1
Y Weriniaeth Tsiec	133	10	Uzbekistan	54	3	Saudi Arabia	19	1
Gwlad Pwyl	217	10	Bwlgaria	63	2	Tajikistan	16	1
Denmarc	115	9	Gweriniaeth Dominica	35	2	Uganda	16	1
Romania	103	9	Yr Aifft	116	2	Venezuela	69	1
Colombia	109	8						

Ffynhonnell y data: *Olympics 2012: the alternative medals table* (Simon Rogers, The Guardian, 2012) www.theguardian.com/sport/datablog/2012/jul/30/olympics-2012-alternative-medal-table#data; Y Pwyllgor Rhyngwladol Olympaidd, www.olympic.org/olympic-results

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

Cymedr y medalau i bob athletwr – gwag

Taflen gweithgareddau 1

Gwlad	Nifer yr athletwyr	Cyfanswm y medalau	Cymedr y medalau i bob athletwr (i 2 le degol)	Gwlad	Nifer yr athletwyr	Cyfanswm y medalau	Cymedr y medalau i bob athletwr (i 2 le degol)	Gwlad	Nifer yr athletwyr	Cyfanswm y medalau	Cymedr y medalau i bob athletwr (i 2 le degol)
UDA	531	103		Sweden	140	8		Estonia	33	2	
China	371	88		Ethiopia	35	7		Gwlad Groeg	105	2	
Ffederasiwn Rwsia	435	82		Georgia	35	7		Indonesia	22	2	
Y Deyrnas Unedig	556	65		México	106	7		Latvia	46	2	
Yr Almaen	395	44		Croatia	110	6		Malaysia	30	2	
Japan	303	38		India	83	6		Moldova	22	2	
Awstralia	413	35		Gogledd Korea	55	6		Puerto Rico	25	2	
Ffrainc	335	35		De Affrica	133	6		Qatar	12	2	
Yr Eidal	281	28		Gweriniaeth Iwerddon	66	5		Singapore	23	2	
De Korea	255	28		Lithuania	62	5		Taiwan	44	2	
Yr Iseldiroedd	182	20		Mongolia	29	5		Afghanistan	6	1	
Ukrain	236	20		Twrci	114	5		Algeria	39	1	
Canada	279	18		Yr Ariannin	142	4		Bahamas	26	1	
Hwngari	158	18		Norwy	65	4		Bahrain	12	1	
Brasil	266	17		Serbia	116	4		Botswana	4	1	
Sbaen	289	17		Slofacia	46	4		Cyprus	13	1	
Cuba	110	14		Slovenia	68	4		Gabon	28	1	
Kazakhstan	115	13		Y Swistir	106	4		Grenada	10	1	
Seland Newydd	196	13		Trinidad a Tobago	31	4		Guatemala	19	1	
Belarus	172	12		Armenia	25	3		Hong Kong	42	1	
Iran	53	12		Gwlad Belg	118	3		Kuwait	10	1	
Jamaica	50	12		Y Ffindir	56	3		Montenegro	34	1	
Kenya	50	11		Thailand	37	3		Morocco	72	1	
Azerbaijan	53	10		Tunisia	84	3		Portiwgal	80	1	
Y Weriniaeth Tsiec	133	10		Uzbekistan	54	3		Saudi Arabia	19	1	
Gwlad Pwyl	217	10		Bwlgaria	63	2		Tajikistan	16	1	
Denmarc	115	9		Gweriniaeth Dominica	35	2		Uganda	16	1	
Romania	103	9		Yr Aifft	116	2		Venezuela	69	1	
Colombia	109	8									

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

Olympics 2012: the alternative medals table (Simon Rogers,The Guardian, 2012) www.theguardian.com/sport/datablog/2012/jul/30/olympics-2012-alternative-medal-table#data; Y Pwyllgor Rhyngwladol Olympaidd, www.olympic.org/olympic-results

Cymedr y medalau i bob athletwr– llawn

Taflen adnoddau 2

Gwlad	Nifer yr athletwyr	Cyfanswm y medalau	Cymedr y medalau i bob athletwr (i 2 le degol)	Gwlad	Nifer yr athletwyr	Cyfanswm y medalau	Cymedr y medalau i bob athletwr (i 2 le degol)	Gwlad	Nifer yr athletwyr	Cyfanswm y medalau	Cymedr y medalau i bob athletwr (i 2 le degol)
UDA	531	103	0.20	Sweden	140	8	0.06	Estonia	33	2	0.06
China	371	88	0.24	Ethiopia	35	7	0.20	Gwlad Groeg	105	2	0.02
Ffederasiwn Rwsia	435	82	0.19	Georgia	35	7	0.20	Indonesia	22	2	0.09
Y Deyrnas Unedig	556	65	0.12	México	106	7	0.07	Latvia	46	2	0.04
Yr Almaen	395	44	0.11	Croatia	110	6	0.05	Malaysia	30	2	0.07
Japan	303	38	0.13	India	83	6	0.07	Moldova	22	2	0.09
Awstralia	413	35	0.08	Gogledd Korea	55	6	0.11	Puerto Rico	25	2	0.08
Ffrainc	335	35	0.10	De Affrica	133	6	0.05	Qatar	12	2	0.17
Yr Eidal	281	28	0.10	Gweriniaeth Iwerddon	66	5	0.08	Singapore	23	2	0.09
De Korea	255	28	0.11	Lithuania	62	5	0.08	Taiwan	44	2	0.05
Yr Iseldiroedd	182	20	0.11	Mongolia	29	5	0.17	Afghanistan	6	1	0.17
Ukrain	236	20	0.08	Twrci	114	5	0.04	Algeria	39	1	0.03
Canada	279	18	0.06	Yr Ariannin	142	4	0.03	Bahamas	26	1	0.04
Hwngari	158	18	0.11	Norwy	65	4	0.06	Bahrain	12	1	0.08
Brasil	266	17	0.06	Serbia	116	4	0.03	Botswana	4	1	0.25
Sbaen	289	17	0.06	Slofacia	46	4	0.09	Cyprus	13	1	0.08
Cuba	110	14	0.13	Slovenia	68	4	0.06	Gabon	28	1	0.04
Kazakhstan	115	13	0.11	Y Swistir	106	4	0.04	Grenada	10	1	0.10
Seland Newydd	196	13	0.07	Trinidad a Tobago	31	4	0.13	Guatemala	19	1	0.05
Belarus	172	12	0.07	Armenia	25	3	0.12	Hong Kong	42	1	0.02
Iran	53	12	0.23	Gwlad Belg	118	3	0.03	Kuwait	10	1	0.10
Jamaica	50	12	0.24	Y Ffindir	56	3	0.05	Montenegro	34	1	0.03
Kenya	50	11	0.22	Thailand	37	3	0.08	Morocco	72	1	0.01
Azerbaijan	53	10	0.19	Tunisia	84	3	0.04	Portiwgal	80	1	0.01
Y Weriniaeth Tsiec	133	10	0.08	Uzbekistan	54	3	0.06	Saudi Arabia	19	1	0.05
Gwlad Pwyl	217	10	0.05	Bwlgaria	63	2	0.03	Tajikistan	16	1	0.06
Denmarc	115	9	0.08	Gweriniaeth	35	2	0.06	Uganda	16	1	0.06

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

Romania	103	9	0.09	Yr Aifft	116	2	0.02	Venezuela	69	1	0.01
Colombia	109	8	0.07								

Ffynhonnell y data: *Olympics 2012: the alternative medals table* (Simon Rogers, The Guardian, 2012) www.theguardian.com/sport/datablog/2012/jul/30/olympics-2012-alternative-medal-table#data; Y Pwyllgor Rhyngwladol Olympaidd, www.olympic.org/olympic-results

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

Gwledydd incwm isel

Taflen gweithgareddau 2

Gwlad	Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd
Afghanistan	1
Benin	0
Burkina Faso	0
Burundi	0
Cambodia	0
Gweriniaeth Canolbarth Affrica	0
Chad	0
Comoros	0
Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo	0
Eritrea	0
Ethiopia	7
Gambia	0
Guinea	0
Guinea-Bissau	0
Haiti	0
Liberia	0
Madagascar	0
Malawi	0
Mali	0
Mozambique	0
Nepal	0
Niger	0
Gogledd Korea	6
Rwanda	0
Sierra Leone	0
Somalia	0
Tanzania	0
Togo	0
Uganda	1
Zimbabwe	0

Cyfanswm nifer y gwledydd:

_____

Cyfanswm nifer y medalau:

_____

Nifer y gwledydd sy'n ennill o leiaf un fedal:

_____

Canran y gwledydd sy'n ennill o leiaf un fedal:

_____

Ffynonellau'r data:
Gwledydd a grwpiau benthyg: Banc y Byd, 2016, data.worldbank.org/about/country-and-lending-groups
Cyfansymiau medalau Olympaidd: Y Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol www.olympic.org/olympic-results

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Gwledydd incwm canolig is

Taflen gweithgareddau 3

Gwlad	Cyfanswm y medalau	Gwlad	Cyfanswm y medalau
Armenia	3	Moldova	2
Bangladesh	0	Morocco	1
Bhutan	0	Myanmar	0
Bolivia	0	Nicaragua	0
Cameroon	0	Nigeria	0
Cape Verde	0	Tiriogaethau Meddianedig Palestina	0
Congo-Brazzaville	0		
Djibouti	0	Pakistan	0
Dwyrain Timor	0	Papua Guinea Newydd	0
Yr Aifft	2	Pilipinas	0
El Salvador	0	Samoa	0
Georgia	7	São Tomé a Principe	0
Ghana	0	Senegal	0
Guatemala	1	Ynysoedd Solomon	0
Guyana	0	Sri Lanka	0
Honduras	0	Sudan	0
India	6	Swaziland	0
Indonesia	2	Syria	0
Côte D'Ivoire	0	Tajikistan	1
Kenya	11	Ukrain	20
Kiribati	0	Uzbekistan	3
Gweriniaeth Kyrgyz	0	Vanuatu	0
Laos	0	Viet Nam	0
Lesotho	0	Yemen	0
Mauritania	0	Zambia	0
Micronesia	0		

Cyfanswm nifer y gwledydd: _____

Cyfanswm nifer y medalau: _____
Nifer y gwledydd sy'n ennill o leiaf un fedal: _____

Canran y gwledydd sy'n ennill o leiaf un fedal: _____

Ffynonellau'r data: *Gwledydd a grwpiau benthyg:* Banc y Byd, 2016, data.worldbank.org/about/country-and-lending-groups *Cyfansymiau medalau Olympaidd:* Y Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol www.olympic.org/olympic-results

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Gwledydd incwm canolig uwch

Taflen gweithgareddau 4

Gwlad	Cyfanswm y medalau	Gwlad	Cyfanswm y medalau
Albania	0	Libya	0
Algeria	1	Macedonia	0
Samoa Americanaidd	0	Malaysia	2
Angola	0	Maldives	0
Azerbaijan	10	Ynysoedd Marshall	0
Belarus	12	Mauritius	0
Belize	0	México	7
Bosnia a Herzegovina	0	Mongolia	5
Botswana	1	Montenegro	1
Brasil	17	Namibia	0
Bwlgaria	2	Palau	0
China	88	Panama	0
Colombia	8	Paraguay	0
Costa Rica	0	Periw	0
Cuba	14	Romania	9
Dominica	0	Serbia	4
Gweriniaeth Dominica	2	De Affrica	6
Ecuador	0	St. Lucia	0
Fiji	0	St. Vincent a'r Grenadines	0
Gabon	1	Suriname	0
Grenada	1	Thailand	3
Iran	12	Tonga	0
Iraq	0	Tunisia	3
Jamaica	12	Twrci	5
Gwlad Iorddonen	0	Turkmenistan	0
Kazakhstan	13	Tuvalu	0
Libanus	0		

Cyfanswm nifer y gwledydd: _____

Cyfanswm nifer y medalau: _____

Nifer y gwledydd sy'n ennill o leiaf un fedal: _____

Canran y gwledydd sy'n ennill o leiaf un fedal: _____

Ffynonellau'r data:

Gwledydd a grwpiau benthyg: Banc y Byd, 2016, data.worldbank.org/about/country-and-lending-groups
Cyfansymiau medalau Olympaidd: Y Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol www.olympic.org/olympic-results

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Gwledydd incwm uchel

Taflen gweithgareddau 5

Gwlad	Cyfans wm y	Gwlad	Cyfans wm y	Gwlad	Cyfans wm y
Andorra	0	Yr Almaen	44	Puerto Rico	2
Antigua a Barbuda	0	Gwlad Groeg	2	Qatar	2
Yr Ariannin	4	Guam	0	Ffederasiwn Rwsia	82
Aruba	0	Hong Kong	1	San Marino	0
Awstralia	35	Hwngari	18	Saudi Arabia	1
Awstria	0	Gwlad yr Iâ	0	Seychelles	0
Bahamas	1	Gweriniaeth Iwerddon	5	Singapore	2
Bahrain	1	Israel	0	Slofacia	4
Barbados	0	Yr Eidal	28	Slovenia	4
Gwlad Belg	3	Japan	38	De Korea	28
Bermuda	0	Kuwait	1	Sbaen	17
Brunei	0	Latvia	2	St. Kitts a Nevis	0
Canada	18	Liechtenstein	0	Sweden	8
Ynysoedd Cayman	0	Lithuania	5	Y Swistir	4
Chile	0	Luxembourg	0	Taiwan	2
Croatia	6	Malta	0	Trinidad a Tobago	4
Cyprus	1	Monaco	0	Emiradau Arabaidd Unedig	0
Y Weriniaeth Tsiec	10	Yr Iseldiroedd	20	Y Deyrnas Unedig	65
Denmarc	9	Seland Newydd	13	Unol Daleithiau America	103
Guinea Gyhydeddol	0	Norwy	4	Uruguay	0
Estonia	2	Oman	0	Venezuela	1
Y Ffindir	3	Gwlad Pwyl	10	Ynysoedd Virgin (UDA)	0
Ffrainc	35	Portiwgal	1		

Cyfanswm nifer y gwledydd: _____

Cyfanswm nifer y medalau: _____

Nifer y gwledydd sy'n ennill o leiaf un fedal: _____

Canran y gwledydd sy'n ennill o leiaf un fedal: _____

Ffynonellau'r data:

Gwledydd a grwpiau benthyg: Banc y Byd, 2016, data.worldbank.org/about/country-and-lending-groups

Cyfansymiau medalau Olympaidd: Y Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol www.olympic.org/olympic-results

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

Campau Olympaidd – yn agored i bawb?

Taflen gweithgareddau 6

Grŵp incwm gwledydd	Athletau	Beicio – trac	Marchogaeth	Gymnasteg – artistig	Rhwyfo	Hwylio	Saethu	Nofio	Tennis	Ymgodymu
Gwledydd incwm isel	8	0	0	0	0	0	0	0	0	1
Gwledydd incwm canolig is	16	0	0	1	1	0	4	0	0	13
Gwledydd incwm canolig uwch	32	3	0	12	2	2	12	19	2	23
Gwledydd incwm uchel	85	28	18	29	39	28	29	83	13	35

Ym mha rai o'r campau hyn rydych chi'n meddwl nad yw incwm gwlad mor bwysig er mwyn ennill medal? Pam rydych chi'n meddwl mae hyn?

Ym mha rai o'r campau hyn rydych chi'n meddwl bod incwm gwlad yn bwysig iawn er mwyn ennill medal? Pam rydych chi'n meddwl mae hyn?

Ydych chi'n meddwl bod yr anghydraddoldeb hwn yn deg? Pam rydych chi'n meddwl hyn?

Ffynonellau'r data:
Gwledydd a grwpiau benthyg: Banc y Byd, 2016, data.worldbank.org/about/country-and-lending-groups
Cyfansymiau medalau Olympaidd: Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol, 2012, www.olympic.org/london-2012-summer-olympics

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

Siart bar A **Taflen gweithgareddau 7**

Camp Olympaidd: _____



Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Siart bar B

Taflen gweithgareddau 8



Camp Olympaidd

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

Graddfa A Sgôr tegwch

Gwlad	Sgôr tegwch
Awstralia	35
Bolivia	48
Brasil	53
Bwlgaria	36
China	42
Ethiopia	33
India	34
Jamaica	46

Taflen gweithgareddau 9

Gwlad	Sgôr tegwch
Malawi	46
Nepal	33
Ffederasiwn Rwsia	42
De Affrica	63
Ukrain	25
Y Deyrnas Unedig	33
Unol Daleithiau America	41
Gweriniaeth Yemen	36



Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

Graddfa B Sgôr tegwch

Gwlad	Sgôr tegwch
Awstralia	35
Bolivia	
Brasil	
Bwlgaria	36
China	
Ethiopia	33
India	34
Jamaica	46

Taflen gweithgareddau 10

Gwlad	Sgôr tegwch
Malawi	
Nepal	33
Ffederasiwn Rwsia	42
De Affrica	63
Ukrain	
Y Deyrnas Unedig	
Unol Daleithiau America	41
Gweriniaeth Yemen	36



Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM